Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

# Siarter Hawliau Plant

**Byddwn yn helpu i ofalu am yr aer, y tir, y dŵr, y bywyd gwyllt, y planhigion a'r pridd yng Nghymru fel y gallwch dyfu i fyny'n iach.**

Erthygl 6 – Yr hawl i fywyd, i dyfu i fyny a chyflawni eich holl botensial
Erthygl 24 – Yr hawl i aer glân



**Gallwch ofalu am fyd natur a deall sut mae'n eich helpu i dyfu i fyny'n iach.**

**Byddwn yn darparu mannau naturiol diogel i chi chwarae ac ymlacio ynddynt.**


Erthygl 31 – Yr hawl i ymlacio a chwarae
Erthygl 19 – Yr hawl i gael eich cadw'n ddiogel rhag niwed



**Gallwch chwarae gyda'ch ffrindiau a'ch teulu yn eich ardaloedd natur lleol.**

**Byddwn yn eich helpu i ddysgu am fyd natur fel y gallwch ei werthfawrogi a gofalu amdano.**

Erthygl 28 – Yr hawl i ddysgu



**Gallwch helpu byd natur i fod yn iach.**

**Byddwn yn rhoi cyfleoedd i chi ddysgu am ein gwaith a'r sgiliau sydd eu hangen i weithio yn yr amgylchedd naturiol ac ar ei gyfer.**


Erthygl 29 – Yr hawl i fod y gorau y gallwch fod




**Gallwch ddysgu am swyddi a gyrfaoedd amgylcheddol.**

**Byddwn yn darparu gwybodaeth y gallwch ei deall fel y gallwch ddysgu am fyd natur.**


Erthygl 13 – Yr hawl i ryddid mynegiant
Erthygl 17 – Yr hawl i wybodaeth



**Gallwch ofalu am fyd natur.**

**Byddwn yn gofyn am eich barn onest, ac yn gwrando arni, ac yn parchu eich barn fel y gallwch helpu i ofalu am fyd natur.**


Erthygl 12 – Yr hawl i gael rhywun i wrando arnoch a'ch cymryd o ddifrif



**Gallwch siarad yn agored â ni.**

**Ni fyddwn yn defnyddio eich delwedd nac yn rhannu gwybodaeth amdanoch heb eich caniatâd chi, eich rhieni, neu'ch gofalwyr.**

Erthygl 16 – Yr hawl i breifatrwydd



**Gallwch helpu i lenwi unrhyw waith papur sydd ei angen arnom fel y gallwch gymryd rhan mewn digwyddiad Cyfoeth Naturiol Cymru.**